Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 41/2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Atodiad

# Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr llywodraeth leol Canlyniadau Ynys Môn

**Atodiad**

**Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr llywodraeth leol**

**Canlyniadau Ynys Môn**

**Ceri Greenall a John Broomfield**

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Ceri Greenall
Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5634
E-bost: Ceri.greenall@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014
ISBN 978-1-4734-1385-6
© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys


1. Cyflwyniad …..…………….……………………………………………..2
2. Ymatebwyr.......…………………………………………………...2
3. Ymlyniad Gwleidyddol......…………………………………………....3
4. Profiad blaenorol fel cynghorydd….……………………………………..4
5. Dynion a Menywod………………………………………………………4
6. Oedran..…………………………………………………………...4
7. Ethnigrwydd.……………………………………………………………5
8. Crefydd.…………………………………………………………………5
9. Rhywioldeb……………………………………………………………..5
10. Cyflogaeth...……………………………………………………………5
11. Cymwysterau…………………………………………………………...7
12. Cyfrifoldeb Rhiant………………………………………………………7
13. Iechyd……………………………………………………………………7
14. Anabledd………………………………………...………………...8
15. Iaith……………………………………………..…………………..8

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr llywodraeth leol yn Ynys Môn. Oherwydd yr etholiadau hwyr yn Ynys Môn, cynhaliwyd yr Arolwg flwyddyn yn hwyrach na gweddill Cymru (Mai 2013 yn hytrach na Mai 2012). Ac eithrio hyn, roedd yr Arolwg yn union debyg i'r un a gynhaliwyd ym mis Mai 2012. Mae manylion yr Arolwg i'w gweld ym mhrif gorff Adroddiad yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, sydd i'w weld yn:

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/local-government-candidates-survey/?lang=cy

1.2 Er bod yr Arolwg yn union debyg i'r un a gynhaliwyd yng ngweddill Cymru flwyddyn ynghynt, byddai'n gamarweiniol cymharu'r canlyniadau a gyflwynir yma â'r rheini a gyflwynir ym mhrif Adroddiad yr Arolwg. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gwahaniaeth amser o flwyddyn, ond hefyd oherwydd bod canlyniadau Adroddiad yr Arolwg wedi'u cyflwyno ar sail Cymru gyfan (ac eithrio Ynys Môn), yn hytrach na fesul awdurdod lleol.

## 2. Ymatebwyr

2.1 Daeth 68 o ymatebion i law, sy'n gyfradd ymateb o 15%. Ymatebodd saith o'r 30 o gynghorwyr sir etholedig yn Ynys, sy'n gyfradd ymateb o 23%.


2.2 Nid yw'n briodol rhoi dadansoddiad o'r data sy'n cynnwys amrywiaeth ymhlith cynghorwyr sir neu ymgeiswyr aflwyddiannus o ystyried y niferoedd bach, felly mae'r isod yn ymwneud ag *'Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn Ynys Môn'* yn unig.

2.3 Dewisodd rhai ymatebwyr i beidio ag ateb rhai cwestiynau. Yn yr achosion hyn, ceir data disgrifiadol ar lefel ymatebion 'dilys' yn unig.

2.4 O'r rheini a ymatebodd i'r arolwg, roedd 18% yn sefyll ar gyfer etholiad cyngor sir, 76% ar gyfer etholiad cyngor cymuned a 6% ar gyfer y ddau.

2.5 Mae ffigwr 1 yn dangos statws yr ymatebwyr yn dilyn yr etholiadau.

**Ffigwr 1**





Nifer: 68

### 3. Ymlyniad Gwleidyddol

3.1 Mae ffigwr 2 yn dangos mai ymgeiswyr annibynnol oedd y mwyafrif. Prin oedd y gwahaniaeth mewn ymlyniad pleidiol rhwng yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.

**Ffigwr 2**





Nifer: 61

## 4. Profiad blaenorol fel cynghorydd

4.1 O'r holl ymatebwyr o Ynys Môn, roedd oddeutu chwarter heb sefyll ar gyfer etholiad na gwasanaethu fel cynghorydd o'r blaen. O'r holl ymatebwyr, roedd 50% wedi gwasanaethu fel cynghorydd am ddeg mlynedd neu fwy.

**Ffigwr 3**




Nifer: 67 a 68 o ymatebwyr yn y drefn honno


## 5. Dynion a Menywod

5.1 O'r 67 o ymgeiswyr a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd 67% yn ddynion a 33% yn fenywod. Fel yn achos canlyniadau Cymru gyfan, nid yw hyn yn adlewyrchu'r boblogaeth.

## 6. Oedran

6.1 Mae ffigwr 4 yn dangos rhaniad oedran yr ymatebwyr. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr dros 60 oed, gyda'r gyfran fwyaf rhwng 60 a 69 oed.

**Ffigwr 4**




Nifer: 68

## 7. Ethnigrwydd

7.1 O ran y cwestiwn ethnigrwydd, o’r 67 o ymgeiswyr, dywedodd 66 ohonynt eu bod yn wyn.

## 8. Crefydd

8.1 O’r 62 o ymgeiswyr a atebodd, dywedodd 89% eu bod yn Gristnogion a dywedodd 11% nad oedd ganddynt grefydd.


## 9. Rhywioldeb

9.1 Atebodd 58 o ymgeiswyr y cwestiwn hwn, a dywedodd y mwyafrif (56) eu bod yn heterorywiol.

## 10. Cyflogaeth

10.1 Fel y mae ffigwr 5 yn ei ddangos, dywedodd mwyafrif yr ymgeiswyr eu bod wedi ymddeol (58%). Dywedodd 16% eu bod mewn cyflogaeth amser llawn, a dywedodd 10% eu bod mewn cyflogaeth rhan amser.


**Ffigwr 5**




Nifer: 67

10.2 Mae ffigwr 6 yn dangos y sector cyflogaeth mwyaf diweddar ar gyfer ymgeiswyr. Dywedodd dwy ran o bump bod eu cyflogaeth mwyaf diweddar yn y sector preifat, gydag ychydig dros un o bob pump wedi'u cyflogi yn y sector addysg (21%).

**Ffigwr 6**





Nifer: 63

## 11. Cymwysterau

11.1 Mae ffigwr 7 yn dangos cymwysterau uchaf yr ymgeiswyr. Roedd gan tua'r un nifer (oddeutu un rhan o bump o'r ymgeiswyr) lefel O, cymhwyster proffesiynol neu radd anrhydedd.

**Ffigwr 7**




Nifer: 63


## 12. Cyfrifoldeb Rhiant

12.1 Nid oedd gan fwyafrif yr ymgeiswyr (83%) gyfrifoldeb am blentyn 16 oed neu'n iau.

## 13. Iechyd

13.1 Dywedodd mwyafrif y cynghorwyr (98%) bod eu hiechyd meddwl yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda, a dywedodd 88% ohonynt bod eu hiechyd corfforol yn dda iawn neu'n dda.

**Ffigwr 8**




Nifer: 67 a 68 yn y drefn honno

**14. Anabledd**

14.1 O'r 66 o bobl a atebodd gwestiwn am anabledd, roedd naw yn cyfrif eu hunain fel bod yn anabl. O'r naw, dywedodd saith ohonynt bod eu hanabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau mewn rhyw ffordd.

**15. Iaith**

15.1 Dywedodd mwyafrif yr ymgeiswyr (63%) mai Cymraeg oedd eu prif iaith. Dywedodd y gweddill (37%) mai Saesneg oedd eu prif iaith.